

Adroddiad Ôl-ymgynggori

Ysgol Melin Gruffydd – Gorchymyn Traffig Arbrofol

Rhif Project: CO18121

Cynhaliwyd ymgynggoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 20 Medi 2018 a 11 Hydref 2018, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a ddaeth i law yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn hefyd. Diben yr ymgynggoriad oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â gofidion pobl leol petai'n bosibl.

O'r tua 75 eiddo yr ymgynggorwyd â nhw, a'r 6 hysbysiad safle a roddwyd ar y safle ei hun, cafwyd 8 ymateb unigol, a cheir crynodeb ohonynt isod:

- 4 - Cefnogi'r cynnig
- 1 – Gwrthwynebu'r cynnig
- 3 – Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig

Dengys y pryderon a'r sylwadau mewn ysgrifen *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynllun, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno gwaharddiad arbrofol ar droi i'r dde ac i'r chwith i Glan y Nant Road rhwng 7:30 a 9:30, a 14:30 a 17:00, sef oriau brig gollwng a chasglu plant o Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd.

Isod ceir y sylwadau a dderbyniwyd yn erbyn y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori:

Mater - Bydd y Broblem Barcio yn symud i strydoedd cyfagos

"A fydd rhieni'n cael gwybod am drefniadau parcio diogel eraill? (e.e. defnyddio'r maes parcio cyhoeddus ger yr Earl Haig a cherdded drwy Davis's Tce) Mae'n bosibl y bydd symud y traffig o Glan y Nant Rd yn cael sgil effaith ar strydoedd cyfagos - yn benodol Ty'n Y Pwll Road, sy'n brysur iawn fel y mae. Rwy'n gwybod y bu materion hefyd o ran pobl yn parcio ym maes parcio'r ganolfan gymunedol. A fyddwch chi hefyd yn monitro'r effaith ar yr ardal gyfagos? Nid yw symud y broblem i rywle arall yn ateb cynaliadwy, a bydd yn creu rhagor o gwynion"

"Dylai'r Cyngor ystyried yr ardaloedd hyn fel rhan o'i gynigion a sicrhau nad yw'r peryglon/risgiau'n cael eu trosglwyddo i ardal arall."

"Mynediad gefn at Glan y Nant Road ar Davis Terrace. Bydd preswylwyr a phobl nad ydynt yn breswylwyr yn defnyddio'r ffordd yn aml fel ffordd osgoi. Ar sawl achlysur, parciodd rhieni'r ysgol ar ochr Glan y Nant Rd o'r lôn gefn i fynd â'u plant i'r ysgol, gan rwystro'r mynediad yn llwyr. Mae llawer o rieni'n parcio yma ger y modurdai ac yng nghefn gerddi wrth ollwng/codi eu plant. Rydym yn poeni pan fo'r parth gorfodi ar waith y bydd yr ardal hon yn hyd yn oed yn fwy prysur oherwydd y bydd rhieni'n ceisio parcio mor agos â phosibl at yr ysgol, neu y byddant yn gyrru trwyddi i'r ysgol i osgoi'r parth gorfodi."

"Os caiff y cynigion eu gweithredu, rwy'n credu y bydd risg go iawn y bydd Davies Terrace, Victoria Road a Tyn y Pwll Road yn dod yn fannau peryglus. Dylai'r Cyngor ystyried yr ardaloedd hyn fel rhan o'u cynigion a sicrhau nad yw'r peryglon/risgiau'n cael eu trosglwyddo i ardal arall."

Ar ôl rhoi'r cynllun ar waith bydd yr awdurdod lleol yn asesu ac yn monitro'r cynllun, gwneir hyn drwy gyfathrebu â'r ysgol a bydd ymweliadau â safleoedd yn cael eu cynnal yn ystod yr amseroedd gwaharddedig er mwyn asesu effaith y cynllun. Os canfyddir materion diogelwch ffyrdd ychwanegol wrth fonitro'r cynllun hwn, fe'u hatgyfeirir at y tîm Gorchymyn Rheoleiddio Traffig i ymchwilio i benderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol neu ddiwygiedig.

Mae'r sylwadau isod yn rhai a dderbyniwyd o blaid y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori:

"Rydym yn croesawu'r cynnig Gorchymyn dros dro yn yr ardal hon gan fod y traffig ysgol ar hyd Glan y Nant Terrace a Road yn drwm ofnadwy, ac mae nifer y ceir sydd wedi parcio a cheir symudol yn yr ardal ar adegau ysgol yn ei gwneud hi'n anniogel i gerddwyr a beicwyr (mae llawer o bobl yn cerdded a beicio i'r ysgol)."

"Credaf fod hwn yn gam positif"

"Fel preswlydd, rwy'n meddwl ei fod yn syniad da iawn. Mae rhai rhieni'n defnyddio'r ffordd hon fel trac rasio gan yrru o leiaf 25 milltir yr awr ar ei hyd, mewn ceir 4x4 mawr; petai plentyn bychan yn rhedeg i'r ffordd byddai'n ddifrifol iawn."

"Credaf fod hwn yn awgrym ardderchog mewn egwyddor"

“Mae llawer o dagfeydd ger cyffordd Glan y Nant Terrace a Glan y Nant Road – yn benodol gan fod ceir / tacsis yn codi a gollwng plant o’r Ysgol Uwchradd yn parcio’n barhaus ar linellau melyn dwbl sydd weithiau yn ei gwneud hi’n amhosibl i draffig fynd i unrhyw le. Byddai lleddfu hyn yn help mawr.”

Isod, ceir sylwadau ychwanegol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, sy’n ymwneud â materion eraill yn deillio o’r ymgynghoriad:

Sylw – sut caiff y cynllun newydd ei orfodi?

“Sut caiff ei fonitro a’i orfodi?”

“Beth am gerbydau sy’n defnyddio’r ffordd i ymweld â phreswylwyr?”

“Beth sy’n atal gyrwyr rhag anwybyddu’r arwydd (mae’r gwardeiniaid lleol wedi dweud bod angen iddynt rannu eu hamser dros sawl safle)?”

“Dim ond ar ddau achlysur y gwelais i warden traffig ar y stryd erioed. Roedd un ar y diwrnod y cafodd y cyfyngiadau eu gweithredu am y tro cyntaf, a’r ail achlysur yn ystod gwyliau cyhoeddus pan nad oedd traffig ar y ffordd gan fod yr ysgol ar gau. Rwyf wedi cysylltu â’r cyngor sawl gwaith i adrodd am anwybyddu’r cyfyngiadau traffig hyn.”

Os nad yw cerbyd yn cydymffurfio â’r Gwaharddiad Gyrru hwn, gall fod yn destun hysbysiad tâl cosb pan fydd Swyddog Gorfodi Sifil/yr Awdurdod yn rhoi’r tâl hwn i’r perchennog drwy ddefnyddio Car Camera’r Tîm Gorfodi Sifil.

Pe bai problem barhaus mewn lleoliad, byddai’r Cyngor yn ystyried cyflwyno camera gorfodi sefydlog i orfodi’r Gorchymyn Traffig.

Sylw – cais am Orchmynion Rheoleiddio Traffig ychwanegol

“Mynediad cefn at Glan y Nant Road ar Davis Terrace. Bydd preswylwyr a phobl nad ydynt yn breswylwyr yn defnyddio’r ffordd yn aml fel ffordd osgoi. Ar sawl achlysur, mae rhieni’r ysgol wedi parcio ar ochr Glan y Nant Rd o’r lôn gefn i fynd â’u plant i’r ysgol, gan flocio’r mynediad yn llwyr. Mae llawer o rieni’n parcio yma ger y modurdai ac yng nghefn gerddi wrth ollwng/codi eu plant. Rydym yn poeni pan fo’r parth gorfodi ar waith, bydd yr ardal hon hyd yn oed yn fwy prysur oherwydd y bydd rhieni’n ceisio parcio mor agos â phosibl at yr ysgol, neu y byddant yn gyrru trwyddi i’r ysgol i osgoi’r parth gorfodi.”

“Os caiff y cynigion eu gweithredu, rwy’n credu y bydd risg go iawn y bydd Davies Terrace, Victoria Road a Tyn y Pwll Road yn dod yn fannau peryglus. Dylid ailystyried y penderfyniad hwn os caiff y cynigion eu gweithredu.”

“Does dim trafodaeth ynghylch rhieni ysgol yn defnyddio’r lôn gefn oddi ar Davis’s Terrace fel ffordd osgoi. Mae angen trafod hyn ynghyd â mynediad i deras Glan-y-Nant, neu gallai’r cynllun a gynigir arwain at hyd yn oed mwy o dagfeydd wrth i rieni geisio osgoi’r Gorchymyn drwy ddefnyddio’r lôn wasanaeth.”

“Felly, oni bai bod newidiadau mawr i’r cynnig a gorfodi unrhyw gyfyngiadau, nid wy’n hyderus y bydd llawer o welliant i gerddwyr a phobl eraill sy’n defnyddio’r strydoedd hyn”

Nid oes unrhyw gynnig cyflwyno Gorchmynion Rheoli Traffig ychwanegol fel rhan o'r cynllun hwn. Dylid cyfeirio unrhyw geisiadau am Orchmynion Rheoleiddio Traffig at y tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig i ymchwilio, gellir cysylltu â'r tîm drwy'r manylion isod:

Tîm Gorchmynion Rheoleiddio Traffig, Cyngor Caerdydd, Ystafell 301, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW GwasanaethauCymdogaeth-CymorthBusnes@caerdydd.gov.uk

Sylw – Pwy fydd yn cael ei eithrio?

“All pobl nad ydynt yn breswylwyr ymgeisio am statws cerbyd awdurdodedig? Er enghraifft, mae neiniau a theidiau'n gofalu am ein plant yn aml. Maent yn gyrru atom ni i gasglu'r plant o'n cartref am 8.30am ar gyfer yr ysgol ac yn eu casglu nhw ar ddiwedd y diwrnod ysgol a dod â nhw'n ôl i'n cartref (yn y car). Byddai'n angenrheidiol iddynt gael mynediad at Glan y Nant Road ar yr adegau y byddai'r orfodaeth ar waith - byddem yn disgwyl y byddai modd iddynt barhau i wneud hynny.”

“A gaiff ceir anawdurdodedig eu heffeithio os ânt ar y ffordd y tu allan i'r adegau gwahardd, ond yn parcio ar y ffordd yn ystod y cyfnodau hyn?”

A fydd preswylwyr yn gallu trefnu awdurdodi ymwelwyr, adeiladwyr ac ati yn ystod yr adegau gwahardd hyn?

“Dan y cynnig hwn ni fyddwn yn gallu parcio ein ceir ger ein tai yn ystod y cyfnodau cyfyngedig, i godi na gollwng ein plant”

Bydd y cerbydau a gaiff eu heithrio yn Breswylwyr, Ymwelwyr Gofal/Iechyd neu ymwelwyr hanfodol i breswylwyr (rhifau cofrestru a gaiff eu darparu gan y Preswylwyr). Eithrir staff a cherbydau danfon nwyddau rhag y Gwaharddiad Gyrru a chânt fynediad yn ystod yr adegau hyn. Ceidw'r awdurdod restr o'r cerbydau hyn a'i monitro. Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, anfonir llythyr ychwanegol, a fydd yn rhoi gwybodaeth i drigolion am sut mae cael eu cynnwys ar y rhestr gerbydau awdurdodedig.

Sylw – Pam mai 07:30-09:30 a 14:30-17:00 yw'r amseroedd?

“Rydym yn meddwl bod yr amser dechrau, sef 7.30, yn rhy gynnar a bydd yn achosi anawsterau a straen diangen i rieni sy'n gweithio y mae'n rhaid iddynt ollwng eu plant mor gynnar â hynny. Wedi gwneud hyn ein hunan, mae'n ddigon anodd anfon ein plentyn i'r ysgol i ddechrau'n gynnar, ac yna mae estyn y drefn bore cynnar hon i gynnwys parcio a cherdded yn annheg pan yw amser yn brin”

“Nid wyf yn meddwl bod angen rhoi'r cyfyngiad ar waith am gyfnod mor hir â hynny. Yr amseroedd mwyaf peryglus a phan fydd materion diogelwch ffordd amlwg yw rhwng 8.30am a 9.15am, ac o 3pm tan 4.00pm. Yn aml, mae rhieni/neiniau a theidiau/gofalwyr yn cyrraedd yn gynnar i gael lle ar Glan y Nant Road er mwyn nôl y plant am 3.25/3.30pm, ond y gadael am 3.30-3.45pm sy'n achosi problem. Yn yr un modd, pan fyddant yn hwyr yn y bore, maent yn gyrru ar hyd y ffordd tra mae nifer sylweddol o blant a rhieni'n cerdded i'r ysgol. Y defnydd hwnnw sy'n beryglus. Y tu allan i'r amseroedd hyn, mae rhieni'n cyrraedd bob hyn a hyn does dim crynswth o bobl yn cyrraedd/gadael yr un pryd”

Mae amseroedd y Gorchymyn, sef 07:30 - 09:30 a 14:30 - 17:00, wedi'u gosod yn sgil, trafodaethau â'r ysgol; y rheswm dros ddechrau'n gynnar a gorffen yn hwyr yw hwyluso clybiau brechwast a chlybiau ar ôl ysgol.